# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 12fed o Fehefin 2018 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**

Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Gerallt Davies a Ruby Williams.

**Hefyd yn bresennol:**

Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**

Cynghorwyr Wyn Jones, Wyn Evans, Barry Owen, Garym Roberts, Eiddwen Merritt a Jocelyn Andrew.

**Datgelu buddiannau:**

Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**

Darllenwyd cofnodion Mis Mai a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Mae'r tyllau yn y ffordd tu allan i'r New Foundry wedi eu llanw ond nid yw'r arwyddion yn Nerwen Gam wedi eu trwsio nac eu ail gosod eto.

**Materion Cynllunio:**

Rhif Cyf. A1180509
Derwen Haf, Llwyncelyn.
Codi garej ddomestig.
Dim gwrthwynebiad.

**Fforwm Mynediad Cyhoeddus:**

Derbyniwyd neges o Gyngor Sir Ceredigion yn rhoi gwahoddiad i benodi pobl frwdfrydig i eistedd ar y fforwm a chwarae rôl bwysig o ran gwella a rheoli mynediad i gefn gwlad. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw'r 2ail o fis Gorffennaf 2018.

**Ymgynghoriad ar Bolisi Gorfodi Corfforaethol:**
Darllenwyd lythyr yn sôn am yr uchod a'r pwysigrwydd fod y polisi ar waith yn sicrhau dull cyson wrth ddefnyddio'r ystod o offer gorfodi sydd ar gael. Fydd y Cyngor yn croesawi sylwadau cyn i'r polisi gael ei adrodd i'r Cabinet ar y 10fed o Orffennaf 2018.
**Unrhyw Fater Arall:**
Soniodd y Cynghorydd Carys Morgan am 'Ddathliadau Cenhadon Neuadd-Lwyd/Madagascar' a phenderfynwyd ddanfon lythyr i longyfarch Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar ei paratoiadau a'u llwyddiant.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Orffennaf.